Oliver Plunket 1625–1681

Archesgob Catholig Armagh a merthyr Pabyddol

Er nad oes sicrwydd, credir bod Oliver Plunket a anwyd ar 1 Tachwedd 1625 yn fab ieuengaf i John a Thomassina Plunket o Loughcrew, Swydd Meath. Er ei fod o hen linach Seisnig, oherwydd ei fod mor gyfarwydd â'r diwylliant Gaeleg tybir iddo fod gyda theulu maeth Gwyddelig, sef yr O'Farrells o Longford. Bu mewn ysgol yn Killeen ac ym 1647 ymadawodd ag Iwerddon yng nghwmni Pierfrancesco Scarampi gan fynd i'r Coleg Gwyddelig yn Rhufain lle y derbyniodd addysg ffurfiol eglwysig a hyfforddiant athrofaol. Fe'i hordeiniwyd yn offeiriad ym 1654. Ym mis Mehefin y flwyddyn honno gwnaeth gais am gael aros yn Rhufain yn hytrach na dychwelyd yn syth i Iwerddon. Arhosodd gyda'r Oratoriaid yn eglwys San Gerolamo della Carita gan astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Rhufain. Fe'i penodwyd yn Athro Diwinyddiaeth yn y Coleg Dinesig. Athrofa genhadol oedd y sefydliad hwn oedd yn gyfrifol am gynnal achos yr Eglwys Gatholig lle roedd yn wan.

Pan ailorseddwyd brenin Lloegr ym 1660 dychwelodd nifer o Gatholigion gan gynnwys Plunket i Iwerddon yn y gobaith y byddai sefyllfa'r Catholigion yn gwella yno. Pan fu farw Edmund O'Reilly, Archesgob Armagh, ym 1669 penodwyd Plunket i'r swydd. Ordeiniwyd ef yn Ghent ar 1 Rhagfyr lle y gwasanaethodd Nicholas French, Esgob Ferns.

Wedi taith anodd i Gaergybi cyrhaeddodd Iwerddon ar ddydd gŵyl Sant Padrig 1670. Mewn llythyrau a anfonodd i Rufain mynegodd ei ryfeddod at ddefosiwn a ffyddlondeb pobl i'r ffydd a hynny yn wyneb erledigaeth. Dywedodd ei fod wedi rhoi conffyrmasiwn i 10,000 erbyn dechrau mis Mai. Yn ystod y cyfnod hwn er diogelwch yr oedd yn cymryd arno ei fod yn filwr o'r enw Captain Browne ac yn gwisgo cuddwisg. Sefydlodd ysgol i blant gwŷr bonheddig Ulster yn Drogheda oedd yn cael ei rhedeg gan ddau Iesuwr. Yn y cyfnod hwn bu'n rhaid iddo ddelio gyda thyndra o fewn yr eglwys Gatholig rhwng y Gwyddelig a'r Hen Saeson a buddiannau'r Pabyddol a'r Gwyddelod. Bu hefyd wrthdaro rhyngddo ef a'r Archesgob Peter Talbot o Ddulyn.

Pan ailddechreuodd yr erlid ar Gatholigion ym 1673 caewyd ei ysgol a bygythiwyd cosb ac alltudiaeth ar offeiriaid Catholig gan y rhaglaw newydd, Iarll Essex. Gorchmynnwyd esgobion, offeiriaid, mynaich a lleianod Catholig i adael Iwerddon a gosodwyd dirwyon trymion ar unrhyw un fyddai'n rhoi lloches iddynt. Aeth Plunket i guddio unwaith eto wrth i newyddion am gynllwyn Catholig i ladd y brenin a gosod ei frawd Pabyddol ar yr orsedd ddod i'r amlwg.

Ar 6 Rhagfyr 1679 fe'i harestiwyd yn Naul, County Dublin, lle yr oedd yn cuddio. Aethpwyd ag ef i Gastell Dulyn. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn ei erbyn ei fod wedi bod yn rhan o'r cynllwyn i ladd y brenin ond fe dystiodd nifer o bobl yr oedd, tros y blynyddoedd, wedi sathru ar eu cyrn yn ei erbyn. Er hyn, parhau i fod yn frau yr oedd y dystiolaeth gan nad oedd neb yn barod i dystio yn ei erbyn mewn llys. Fe'i cyhuddwyd, heb sail, o gynllwynio teyrnfradwriaeth gyda'r bwriad o godi 70,000 o Gatholigion mewn cydweithrediad â'r Ffrancwyr er mwyn disodli Protestaniaeth. Symudwyd yr achos i Lundain a rhoddwyd Plunket yng ngharchar Newgate ond ni lwyddwyd i brofi ei fod yn euog o unrhyw drosedd. Awgrymwyd bod y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth yn seiliedig ar goleddu crefydd gableddus ac ofergoelus yn hytrach nag ar unrhyw beth a wnaeth yn erbyn y goron. Cymerodd y rheithgor chwarter awr i'w ddyfarnu'n euog. Yn sylfaenol y rheswm am y dyfarniad hwn oedd hysteria gwrth-Babyddol y cyfnod a thensiynau gwleidyddol. Fe'i dienyddiwyd ar 1 Gorffennaf 1681 yn Tyburn, darniwyd ei gorff a chladdwyd ei weddillion yn St Giles-in-the-Fields, Llundain. Datgladdwyd y corff ddwy flynedd yn ddiweddarach ac aethpwyd â'r benglog i'r lleiandy Dominicaidd yn Drogheda ac y mae heddiw yn cael ei harddangos yn Eglwys Sant Pedr. Cludir un o'i asennau mewn gorymdaith flynyddol yn y dref. Ar 17 Mawrth 1918 gwnaed Oliver Plunket yn ferthyr ac ar 23 Mai 1920 fe'i gwnaed yn sant. Cafodd ei ganoneiddio gan y Pab Pawl VI ar 12 Hydref 1975.